



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

|                |  |
|----------------|--|
| <b>TEITL</b>   | <b>Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021</b>                             |
| <b>DYDDIAD</b> | <b>14 Gorffennaf 2021</b>  |
| <b>GAN</b>     | <b>Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd</b> |

### Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021

#### Trosolwg Polisi o'r OS:

Er bod diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd yn gymhwysedd datganoledig yn y DU roedd yn ofynnol i bob un o'r pedair gwlad gydymffurfio â chyfraith yr UE ar ddiogelwch iechyd. Mae Rheoliadau Diogelwch Iechyd (Ymadael â'r UE) 2021 yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir ar ddiogelwch iechyd ac yn darparu trefn ddeddfwriaethol ar gyfer gwyliadwriaeth epidemiolegol ac ymateb i fygythiadau trawsffiniol difrifol i sicrhau ymateb cydgysylltiedig yn y DU i ddiogelu iechyd dynol yn ogystal â darparu ymateb effeithiol i rwymedigaethau rhyngwladol. Fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 7 Mehefin: [Timeline - SI 2021 - Statutory Instruments - UK Parliament](#)

Mae'r rheoliadau'n rhoi ar waith y trefniadau diogelwch iechyd y cytunwyd arnynt rhwng y DU a'r UE o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE. Mae angen y rheoliadau hefyd i sicrhau bod y DU'n gallu bodloni ei rhwymedigaethau rhyngwladol yn y ffordd orau o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol (2005) (cytuniad rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i holl Wladwriaethau Sefydliad Iechyd y Byd gydweithio ar gyfer diogelwch iechyd byd-eang).

Nid oes unrhyw ymwahanu o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r OS hwn.

#### Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:

- Rheoliad y GE Rhif 851/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor 21 Ebrill 2004 yn sefydlu Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop;

- Penderfyniad Rhif 1082/2013/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor 22 Hydref 2013 ar fygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd a chan ddi-ddymu Penderfyniad Rhif 2119/98/CE;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/253 13 Chwefror 2017 yn pennu gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am rybuddion fel rhan o system rhybudd cynnar ac ymateb mewn perthynas â'r bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd ac ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, ymgynghori a chydgyssylltu ymatebion i fygythiadau o'r fath yn unol â Phenderfyniad 1082/2013;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/945 22 Mehefin 2018 ar glefydau trosglwyddadwy a materion iechyd arbennig cysylltiedig i'w cwmpasu gan wylidwriaeth epidemiologol yn ogystal â diffiniadau achosion unigol.

## **Diben y diwygiadau**

Mae'r rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddatgan gydag addasiadau cyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiogelwch iechyd ac yn darganfod trefn annibynnol i sicrhau bod pedair gwlad y DU'n parhau i gydgyssylltu ar rannu data, gwyliadwriaeth epidemiologol a'r ymagwedd ar y cyd at atal a rheoli bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd. Bydd hyn yn helpu i gynnal galluoegrwydd diogelwch iechyd y DU, gan gefnogi ymateb cydgysylltiedig gan awdurdodau'r DU i fygythiadau trawsffiniol difrifol sy'n peri risg i boblogaeth y DU, er mwyn sicrhau lefel uchel o ddiogelwch iechyd dynol.

Yn allweddol, bydd y rheoliadau'n darparu ar gyfer gweithredu mwy penodol ar y trefniadau diogelwch iechyd y cytunwyd arnynt â'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA). Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi gweithio a rhannu gwybodaeth yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE os bydd bygythiad trawsffiniol difrifol i iechyd.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol ategol, sy'n nodi effaith pob gwelliant ar gael yma: [The Health Security \(EU Exit\) Regulations 2021 \(legislation.gov.uk\)](https://www.legislation.gov.uk)

## **Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bwriedir i'r drefn ddeddfwriaethol i'w sefydlu ledled y DU sicrhau y parheir i rannu gwybodaeth gymaradwy a chydnews mewn perthynas â bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd at ddibenion cydgysylltu a chydweithredu. Seilir y trefniadau ar gydweithio cryf presennol rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a byddant yn cefnogi diogelwch iechyd parhaus i'r DU gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru'n dal yn gyfrifol am bolisïau diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch iechyd yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n dal yn sefydliad cyflawni neilltuol gydag ymreolaeth weithredol ac mae'n atebol i Lywodraeth Cymru. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn atal Llywodraeth Cymru nac Iechyd Cyhoeddus Cymru rhag rhoi gwahanol fesurau iechyd ar waith na chynnal gwyliadwriaeth ychwanegol at ddibenion diogelu iechyd.

## **Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid oes gan yr OS unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## **Paham y rhoddwyd cydsyniad**

Mae'n briodol i Lywodraeth y DU gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ar ran Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn gan nad oes ymwahanu o ran polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'n briodol cael system i'r DU gyfan i ymateb i fygythiadau iechyd sy'n dod i'r amlwg.

Er y bydd y Rheoliadau'n trosglwyddo rhai swyddogaethau o Gomisiwn yr UE i Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU sydd newydd gael ei sefydlu a rhai i'r Ysgrifennydd Gwladol, rydym yn credu bod hyn yn briodol yn yr amgylchiadau. Ymhellach, bydd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru (a'r gwledydd datganoledig eraill) cyn arfer unrhyw rai o'r swyddogaethau. Bydd hyn yn sicrhau y bydd rhaid cytuno ar ddull gweithredu i'r DU gyfan cyn y gellir arfer swyddogaethau. Yn yr un modd, o ran swyddogaethau Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU, bydd y Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o blith Gweinidogion Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac felly caiff safbwyntiau a buddiannau Cymru eu cynrychioli.